



Oes gennych chi weithiwr gofal sydd wir yn gwneud gwahaniaeth trwy siarad â chi'n Gymraeg?

Neu ydych chi'n gweithio gyda neu'n adnabod rhywun rydych chi'n meddwl sy'n gwneud gwahaniaeth trwy ddarparu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg?

Os felly, hoffem glywed wrthoch chi, oherwydd rydyn ni am gydnabod a dathlu'r effaith positif mae'r gweithwyr hyn yn gwneud i fywydau'r bobl maent yn eu cefnogi.

Gallwch chi enwebu unrhyw weithiwr gofal cyflogedig (gofal cymdeithasol neu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant) sy'n darparu gofal a chymorth yn Gymraeg. Gallant, er enghraifft, weithio mewn cartref gofal, gofal yn y cartref neu feithrinfa. Does dim angen iddyn nhw fod yn rhugl yn Gymraeg neu fod o safon benodol. Gallant fod yn ddysgwyr hefyd. Y pwynt pwysig yw bod eu defnydd o'r Gymraeg yn gwneud gwahaniaeth positif wrth gefnogi rhywun.

Llenwch y ffurflen fer isod:

Enwebydd (chi)	Enwebai (y person rydych chi'n enwebu)
Eich enw:	Ei enw/henw:
Eich sefydliad:	Ei sefydliad:
Eich cyfeiriad:	Ei gyfeiriad/ chyfeiriad:
Sir:	Sir:
Cod post:	Cod post:
E-bost:	E-bost:
Rhif ffôn:	Rhif ffôn:
Sut rydych chi'n adnabod y person enwebedig:	



Mewn dim mwy na 250 o eiriau, disgrifiwch pam rydych chi'n meddwl bod y gweithiwr enwebedig yn haeddu cydnabyddiaeth, ac esboniwch sut mae eu defnydd o'r iaith Gymraeg wedi gwneud gwahaniaeth positif i fywyd neu fywydau'r person neu bobl maent yn cefnogi.

Gallwch chi enwebu rhywun hyd at y dyddiad cau, sef 3 Gorffennaf 2019.

Cytunir rhestr fer o enwebeion gan banel o feirniaid ac wedyn gwahoddir y cyhoedd i bleidleisio am y gweithiwr maent yn meddwl dylai ennill y wob, a fydd yn cael ei gyflwyno yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst ar ddydd Mawrth, 6 Awst 2019.

Datganiad diogelu data

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi'i gofrestru gyda'r Comisiwn Gwybodaeth. Trwy gwblhau'r ffurflen hon, rydych chi'n cytuno i ni ddefnyddio'r wybodaeth rydych chi'n rhoi i ni i:

- brosesu eich enwebiad
- eich hysbysu am y wob Gofalu trwy'r Gymraeg.

Bydd unrhyw wybodaeth bersonol rydych chi'n rhoi i ni mewn cysylltiad â'ch enwebiad yn cael ei phrosesu yn unol â'n cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Diogelu Data 2018. Mae mwy o fanylion am y wybodaeth sydd gennym ni, sut rydym yn ei phrosesu a'ch hawliau ar gael yn ein hysbysiad preifatrwydd yn: gofalcymdeithasol.cymru/hysbysiad-preifatrwydd

✓ Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwy'n cyflwyno'r enwebiad hwn gyda chaniatâd yr enwebai

✓ Rwy'n deall gall y wybodaeth a rhoddir yn y ffurflen enwebu hon cael ei defnyddio mewn unrhyw gyhoeddusrwydd ar gyfer y wob, gan gynnwys datganiadau i'r wasg, negeseuon cyfryngau cymdeithasol ac erthyglau ar-lein

Llofnod yr enwebydd:

Dyddiad:

Llofnod yr enwebai:

Dyddiad: